Ardal 4 Abergele – Nodiadau Cyfarfod Rhanddeiliaid a Enwebwyd
30 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgol)
Emma Bayliss (EB) (Project Manager)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng W. E. Jones
Cyng. R. Peacock

1. Rhagarweiniad

Darparodd DB ragarweiniad i'r cyfarfod ac esboniodd beth fyddai'n ei gynnwys gan gynnwys yr elfen gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar ddatblygiad y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Datblygu.

Sesiwn cwestiwn ac ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)

C: A yw'n gywir ein bod o dan adolygiad dechreuol oherwydd bod cyfran uchel o ddisgyblion yn dod o du allan i'r dalgylch ?
A: Ydy, ond hefyd mae materion yn ymwneud â gwneud yr ysgol yn addas i'r pwrpas.
C: Mae'r CDLl yn sôn am tua 2,100 o dai newydd yn yr ardal - sut fydd hyn yn effeithio ar ein hysgolion ?
A: Rydym wedi cymryd y CDLl i ystyriaeth ac wedi edrych ar ragamcanion adeiladu ond bydd DP yn darparu mwy o fanylion yn ystod ei gyflwyniad.
C: A ydych yn gweithio efo Partneriaeth Wledig Conwy ?
A: Rydym yn gweithio'n gyfochrog â Gwasanaethau Datblygu Cymuned ac maent yn edrych ar sut all y Cyngor fuddsoddi mewn ardaloedd. Yn nhermau meini prawf Ysgol 21 Ganrif, nid yw LlCC wedi rhoi meini prawf clir ond wedi nodi bod cynyddu'r defnydd gan yr ardal yn bwysig.
C: Dewis rhieni – beth mae hyn yn ei olygu?
A: Mae gan rieni ddewis ynghylch ble maent yn anfon eu plant i'r ysgol cyn belled bod lle i'r plentyn a bod llywodraethwyr yn eu derbyn.
C: Pam nad yw presenoldeb uchel o du allan i'r dalgylch yn cael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol ?
A: Mae hyn yn adlewyrchu'n dda ar yr ysgol, nid ydym ond yn cyflwyno'r ffeithiau i chi.
C: Sut mae'r polisi cludiant yn gweithio ?
A: Bydd plentyn yn cael cludiant am ddim os yw'n byw dros ddwy filltir o'i ysgol briodol agosaf.
C: Onid yw'r ysgol yn hanesyddol wedi darparu i blant o du allan i'r dalgylch ?
A: Ydy am nifer o flynyddoedd
C: Pam mai nawr mae'n broblem ?

A: Oherwydd bod gennym nawr gyfle i gael arian cyfalaf: rhaid gofyn y cwestiwn a ddylem fuddsoddi mewn ardal ble nad oes ond 14 o blant yn byw yn y dalgylch.
S: Dylid buddsoddi yn yr ysgol gan ei bod yn ysgol dda.
S: Mae rhieni yn dewis anfon eu plant i'r ysgol hon.
S: Mae rhieni'n dewis yr ysgol hon gan ei bod yn ysgol Eglwys gydag ethos da.
C: I ble mae'r tri phlentyn sy'n byw yn y dalgylch yn mynd, os nad ydynt yn mynd i San Siôr ?
A: Gwyddom pa ysgolion Awdurdod mae plant lleol yn eu mynychu, ni allwn ddarparu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n mynd i ysgolion annibynnol.
S: Mae enw da'r ysgol yn ardderchog. Yr ysgol orau yn y cylch.
S: Mae'r tri phlentyn sy'n byw yn y dalgylch yn mynd i Glan Morfa, yr ysgol ffydd yn y Rhyl ac ysgol annibynnol.
S: Ni all rhieni gael lle i'w plant yn yr ysgol hon, gan ei bod mor boblogaidd.

Roddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Dywedwyd nad oedd lleoedd gwag yn broblem yn yr ysgol na chost fesul disgybl. Roedd yr adolygiad yn amserol gan fod gennym nawr y cyfle i gael arian i fuddsoddi mewn ysgolion.

Buddsoddwyd yn San Siôr yn y gorffennol ac fe'i helaethwyd. Mae 14 disgybl yn y dalgylch ac mae cyfran uchel o'r disgyblion yn dod o du allan i'r dalgylch. Mae gennym eisiau gwybod pam nad ydych yn defnyddio eich ysgolion lleol neu pam yr ydych yn dewis yr ysgol hon. (Dywedwyd i roi 'post-its' gyda'r wybodaeth ar y wal syniadau/pryderon).

Mae'r dalgylch wedi bodoli am dros 12 mlynedd ac mae'n seiliedig ar ffiniau ward. Gellir ei ddangos ar fap. Gan ei bod yn ysgol reoledig wirfoddol, nid yw hyn yn faen prawf ar gyfer dalgylch ehangach.

S: Ni chredaf fod y dalgylch yn cyfateb i'r hyn ydyw nawr.
A: Bu'r ysgol yn derbyn o du allan i'r dalgylch oherwydd bod lle. Ni allwn ehangu dalgylchoedd gan y bydd yn cael effaith niweidiol ar ysgolion eraill. Gallai fod yn syniad i ni adolygu dalgylchoedd yn y dyfodol.
C: Pa adnoddau nad ydynt ar gael yn yr ysgol?
A: Nid oes neuadd ar y safle, nac ystafell ginio. Os ydym i adeiladu ysgol newydd, byddai gennym eisiau'r oll o'r adnoddau hyn ar y safle.
S: Mae'r neuadd sydd yma'n ddigon.
S: Mae materion cymdeithasol mewn ysgolion eraill. Rydym yn hapusach gyda llai o adnoddau ond plant cytbwys a bodlon.
S: Synnu nad yw Moelfre yn y dalgylch.
S: Ansawdd y dysgu ac addysgu ddylai fod y canolbwynt mewn ysgol.
S: Mae safonau addysgol yr ysgol yn ardderchog.
A: Gwyddom fod safonau addysgol yn uchel. Efallai y byddai gennym adnoddau gwell yn yr ysgol pe baem yn cael cyfle i fuddsoddi. Byddai lleoedd gwag arwyddocaol pe bai'r ysgol yn gwasanaethu ei dalgylch lleol.
C: Pe baem yn gallu gwneud yr adeilad yn addas i'r pwrpas, a fyddech wedyn yn gadael llonydd i ni? Mae gennym ddogfen i chi sy'n dangos ein bod yn gwneud ymdrech i gyrraedd y safon
Diolch i chi am y ddogfen hon a byddwn yn ei hystyried. Yn syml, dangosydd yw'r rhestr addas i'r pwrpas.

S: Mae diffyg adnoddau yn cael ei drin ac mae wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.
S: Mae'n glod i'r ysgol ei bod yn gwneud mor dda heb yr holl adnoddau hyn.
S: Dewiswn yr ysgol hon oherwydd yr addysg a ddarperir. Gallwn drosglwyddo'r dysgu sydd yma i ysgolion eraill. Mae ethos da a staff ffantastig.
A: Pe bai'r pennaeth yn gadael yr ysgol, a fyddai hyn yn cael effaith ar ethos yr ysgol?
S: Mae athrawon eraill sy'n cadw ethos.
A: Mae Ian wedi gweithio'n galed i ddod â'r ysgol i safon.
S: Bydd llywodraethwyr yn sicrhau cynllunio olyniaeth i'r pennaeth,
S: Tybiaf fod yr Awdurdod Addysg eisoes wedi gwneud penderfyniad.
A: Gallaf ddweud yn bendant nad oes penderfyniad wedi'i wneud.
S: Dywed y ddogfen nad yw ysgolion llai yn arwain at gynnydd mewn safonau addysgol ond dyna'r holl reswm pam rydym yn anfon ein plant yma.
S: Rhaid meddwl am effeithiau cymdeithasol. Mae dosbarthiadau llai yn bwysig.
A: Ni wnaed penderfyniad.
S: Byddwn yn dangos i chi pam ddylid cadw'r ysgol ar agor.
A: Rydym yn cael barn glir o bob ardal ac wedi gorfod mynd i bob un o'r 17 ardal i ofyn cwestiynau caled. Angen cael tystiolaeth gennych i gefnogi unrhyw argymhelliad a gyflwynwn i'r Cabinet. Rydym wedi cymryd y CDRh i ystyriaeth ac os bydd 2,000 o dai yn cael eu hadeiladu yn yr ardal, byddem yn gofyn i'r datblygwr godi ysgol newydd.
C: A oes modd o ddatblygu'r ysgol ?
A: Nid oes lle i ddatblygu'r safle ac mae anawsterau cynllunio. Yn nhermau ein cynllun trefniadaeth ysgol, sy'n dweud y byddwn yn buddsoddi mewn ysgolion sy'n llawn i ddisgyblion lleol. Byddem yn datblygu'r ysgol i wahodd disgyblion o du allan i'r dalgylch hwn – byddai'n rhaid trafod hyn ymhellach.
S: Does ond angen buddsoddiad bach yma o gymharu â buddsoddiad mawr mewn ardaloedd eraill.
A: Bydd y strategaeth yn cael arian ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ac yn bendant ni fyddwn yn cael arian i'w fuddsoddi yn yr oll o'n hysgolion.
C: A yw eich meistri gwleidyddol wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ?
A: Na, mae cynghorwyr yn mynychu'r cyfarfodydd hyn fel arsylwyr a chlywed eich barn. Ni chyflwynwyd dewisiadau iddynt.
C: A fydd gogledd Cymru yn cael ei drin yr un mor deg â de Cymru yn nhermau buddsoddiad?

Roedd Darren Millar AC yn bresennol a dywedodd:

'Mae holl ysgolion Conwy yn ysgolion da. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eisiau gostwng nifer y lleoedd gwag a dywed bod angen cau 170 o ysgolion trwy Gymru. Mae hyn yn anorfod yn golygu y bydd yn rhaid i rai ysgolion yng Nghonwy gau. Mae gan Ysgol San Siôr ethos bendigedig ac mae'r staff yn ffantastig. Mae'r ysgol yn boblogaidd; yn wir yr ysgol fwyaf poblogaidd yng Nghonwy. Mae gan yr ysgol ddiffygion yn nhermau adnoddau ar y safle ond buddsoddwyd mewn ysgolion eraill er nad ydynt hwythau'n gwasanaethu eu dalgylch yn llwyr. Mae gennym yr holl adnoddau sydd gennym eu hangen. Mae defnyddio ystafelloedd i bwrpasau eraill yn iawn yn ein golwg ni. Ni ddylid gweld yr ysgol fwyaf poblogaidd yng Nghonwy fel

problem. Nid yw ysgol nad yw'n addas i'r pwrpas gyda lleoedd gwag yn broblem yma. Os nad yw wedi torri, peidio'i atgyweirio. Rydym am i'r ysgol hon barhau fel y mae.

C: Gan feddwl yn uchel, pa wahaniaeth fyddai'n ei wneud pe bai'r ysgol yn ceisio statws cymorthedig a'r AALl ddim yn gorfod ei chefnogi. Gallai'r eglwys wedyn fuddsoddi yn yr ysgol, mae hyn yn rhywbeth i'r llywodraethwyr feddwl amdano.

A: Mae'n rhywbeth y gall y llywodraethwyr ei ystyried ond mae trefn sy'n rhaid ei dilyn. Mae cronfa arian buddsoddi i ysgolion cymorthedig hefyd yn lleihau felly rhaid cadw hyn mewn cof.

3. Ymateb o'r gweithdy

Defnydd yr ardal o adeiladau

- Caiff plant wersi cerdd yn nhŷ'r ysgol heb anhawster o gwbl
- Mae gwersi anghenion arbennig yn cael eu cynnal yn nhŷ'r ysgol bob amser
- Mae CRhA yn cynnal eu cyfarfodydd misol yno
- Plismon bro yn siarad â'r plant yn nhŷ'r ysgol
- Sgwrs cyn symud i'r ysgol uwchradd yn cael ei gynnal yn nhŷ'r ysgol
- Eir a chliniaduron y staff i dŷ'r ysgol yn ystod amser PPA felly'n dod yn ystafell weithio i staff
- Cyngor yr ysgol yn defnyddio tŷ'r ysgol
- Llywodraethwyr yn cynnal eu cyfarfodydd yn nhŷ'r ysgol
- Defnyddir yr eglwys ar gyfer pob gwasanaeth diolchgarwch ysgol, y Pasg, Adfent, diwedd y flwyddyn ysgol. Cynhelir cyngerdd yr ysgol yn yr eglwys sy'n unigryw
- Defnyddir neuadd y pentref ar gyfer gwersi AG (dawns a symudiad / campfa), ffair Nadolig, parti ysgol a disgo

Materion addysgol

- Defnyddir sgiliau cyfrifiadur trwy'r cwricwlwm
- Y gallu i ddefnyddio cyfrifiaduron yn annibynnol fel bo'r angen – cyfnod sylfaen a datblygu sgiliau allweddol 2
- Mae'n hanfodol bod cyfrifiaduron yn y dosbarth i'w defnyddio pan fo'r angen yn hytrach na bod angen staff ychwanegol i oruchwylio mewn ystafell cyfrifiaduron. Mae ystafell cyfrifiaduron yn awgrymu defnydd cyfyngedig. Yma mae ein cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio trwy'r

dydd, bob dydd pan fo eu hangen ar gyfer gweithgareddau penodol neu ymchwilio

- Staff yn gyfarwydd ag anghenion addysgol unigol pob disgybl ac yn gallu cynllunio'n briodol
- Yr ysgol wedi ennill gwobrwyon chwaraeon / athletau
- Mae'r ffaith ein bod yn ysgol fechan wedi caniatáu canfod a chefnogi plant gydag ADY yn gynnar
- Maint bychan yn golygu bod anghenion addysgol yn cael eu canfod
- Perthynas ardderchog rhwng disgyblion a staff
- Perthynas ardderchog rhwng staff a rhieni
- Staff â gwybodaeth fanwl am bob plentyn ac yn gallu rhoi adborth yn rheolaidd
- Rydym yn anghytuno nad yw ysgolion llai yn golygu gwell cyrhaeddiad addysgol oherwydd dosbarthiadau llai

<u>Gwerthoedd ac ethos</u>

- Amgylchedd cyfeillgar, hapus
- Cefnogaeth emosiynol gan staff pe bai angen
- Cyswllt â'r ysgol yn bwysig iawn i'n teulu
- Cymdeithas fechan, pawb yn adnabod ei gilydd, plant hŷn yn adnabod plant meithrin wrth eu henwau. Edrychant ar ôl ei gilydd. Cefnogaeth cyfoed
- Pob aelod o staff yn adnabod pob plentyn hyd yn oed os nad ydynt yn eu haddysgu, a'r rheini
- Ymdeimlad cymdeithasol yn gryf iawn, ac yn helpu'r plant pan fônt yn mynd i'r ysgol uwchradd
- Plant yn dysgu sgiliau rhwng pobl, rhannu, gofalu, datblygu eraill
- Dosbarthiadau oed cymysg yn darparu parhad i ddisgyblion gan eu bod efo'r un athrawon yn fwy na blwyddyn ysgol
- Staff bob amser ar gael i drafod materion efo rhieni
- Yr ysgol a thraddodiad ond hefyd yn edrych ymlaen sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan y rhai sy'n anfon eu plant i'r ysgol
- Pwysigrwydd teulu, ffrindiau a'r gymdeithas
- Gwerthoedd eglwys (Cristnogol)

- Pob plentyn yn cymryd rhan beth bynnag fo ei allu etc. e.e. dydd Cadoediad

- Mabolgampau ysgol a gweithgareddau eraill

Materion Cymunedol

- Diogelwch plant

- Ymdeimlad o gymdeithas rhwng plant a'i gilydd, a'r plant a'r staff

- Pob plentyn a rhan unigol o fewn yr ysgol a'i gweithgareddau

- Amgylchedd llai yn caniatáu i bob plentyn lwyddo

- Plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion ysgol yn hawdd i'w canfod

- Cyswllt wythnosol â'r eglwys a chefnogaeth barhaus yr eglwys i'r ysgol ac i'r gwrthwyneb

- Cyfaill – pob disgybl yn edrych ar ôl ei gilydd

- Un o'r ysgolion cyntaf i ddefnyddio 'PATHS'

- Rydym yn croesawu'r ethos arbennig mae San Siôr yn ei barhau ar gyfer lles cymdeithasol ac emosiynol ein plant

- Rydym yn anghytuno ynghylch na ddarperir ar gyfer yr agwedd gymdeithasol o ddatblygiad plant. Yn wir, mae plant wedi dod i San Siôr gan na ddarparwyd ar gyfer eu lles cymdeithasol mewn ysgolion eraill

- Mae San Siôr yn rhoi dewis o ysgol yr Eglwys Yng Nghymru

- Gall y plant hynny sydd efo problemau hyder lewyrchu yn yr ysgol – pan efallai na ddarperir ar eu cyfer mewn ysgol 'fawr'

- Mae rhieni disgyblion nad ydynt yn mynychu'r ysgol, yn dewis anfon eu plant i fannau eraill am resymau crefyddol, iaith ac ar gyfer addysg breifat

- Mae'n ysgol dda, peidiwch â'i chau

- Ysgol leol i ofalwyr teulu

- Mae'n gwneud i mi chwerthin eich bod yn galw hyn yn rhaglen moderneiddio ysgolion, ond ar ôl gwrando ar sawl un o'ch swyddogion heno nid yw ond ymarfer mawr i arbed arian, pan na fo lles y plant yn cael ei ystyried. Faint mae wedi'i gostio i gynnal y rhaglen ? Rhowch yr arian yn ôl yn y pot.

- Ysgol eglwys ag ethos

- Un o'r prif resymau pam y gwnaethon ni brynu ein tŷ oedd er mwyn i'n plant fynd i ysgol San Siôr. Rydym yn byw yn y dalgylch
- Mae camau sy'n aml yn anodd eu mesur yn aml yn cael eu hanwybyddu
- A allai llywodraethwyr ystyried ysgolion 'arweiniad gwirfoddol'?
- Addysg o ansawdd hynod
- Credwn mewn addysgu ein plant mewn ysgol sy'n cefnogi ethos Cristnogol
- Mae lles cymdeithasol ac emosiynol yn bwysig a darperir ar ei gyfer yn haws mewn ysgol lai
- Mae hon yn un o ychydig ysgolion mewn ardal. Rhaid i ni roi terfyn ar ddinistrio'r ardaloedd hyn
- Mae safon yr addysgu yn ardderchog ac mae lles cymdeithasol ac emosiynol plant yn llawer pwysicach yn San Siôr
- Mae Moelfre 2½ milltir o San Siôr, pa mor bell ydych yn disgwyl i ni deithio i'n hysgol leol
- Nid aeth fy merch i'r ysgol leol oherwydd y canlynol: enw gwael, nid yn ffyddiog o adroddiad yr ysgol, fawr hyder yn y staff, graddfa disgybl : athro uchel
- Rwy'n bwy y tu allan i'r dalgylch ond yn dewis anfon fy mhlant i San Siôr oherwydd yr enw da a safonau ffantastig. Roedd y rhestr ddisgwyl i gael ein plant i'r ysgol gan adlewyrchu'r galw
- Gadewch lonydd i ni, San Siôr yw'r ysgol i mi
- San Siôr yw'r gorau gan mai dyna mae fy mab yn ei ddweud
- Rhyddid dewis! Yr ysgol orau i fy mhlant
- Mae gan San Siôr yr 'X Factor'
- Pam nad yw Moelfre a Terfyn bellach yn y dalgylch newydd?
- Rwy'n dewis anfon fy mhlant i'r ysgol hon oherwydd yr awyrgylch gymdeithasol ynghyd ag ethos eglwys Gristnogol
- Dylid ystyried barn yr oll o'n plant, sgwrsio â hwy ynghylch beth maent yn ei hoffi am yr ysgol
- Rydym eisiau i'n plant fynd i ysgol eglwys sydd ag ethos ardderchog
- Nid yw'r ysgol wedi torri felly peidiwch â'i hatgyweirio

- Nid oes gan San Siôr broblemau traffig, system rheng tacsi'n gweithio'n berffaith

- Nid yw'r diddordeb o du allan i'r dalgylch ond yn pwysleisio pa mor boblogaidd yw'r ysgol, nid yw'r diffyg adnoddau na neuadd yn effeithio ar effeithioldeb yr ysgol

- Dywedodd y dyn y byddem yn rhoi unrhyw beth am neuadd, byddem yn rhoi unrhyw beth i'r ysgol aros ar agor

- Safonau ymddygiad uchel

- Yn ein barn ni mae ysgol lai yn golygu gwell addysg ar gyfer ein plant

- Mae fy nheulu i wedi mynychu'r ysgol hon am genedlaethau, gobeithiaf y bydd yn parhau

- Symudodd fy ngwraig a minnau i'r ardal o Portsmouth, ac nid oedd gennym rag amgyffred ynghylch unrhyw un o ysgolion y cylch. Pan oedd gennym blant fe aethom i holi pa un oedd yr ysgol orau, a heb amheuaeth roedd San Siôr yn cael ei hargymell gan y rhan fwyaf

- Mae'r ymdeimlad o gymdeithas yn ysgol San Siôr yn unigryw ac yn fy marn i nid yw diffyg neuadd yn effeithio ar addysg fy mhlant

- Faint mae'r dadansoddiad hwn yn mynd i'w gostio, mewn dwy flynedd bydd yr wybodaeth a gafwyd yn 'angof'

- Pennaeth ardderchog, athrawon ardderchog, enw ffantastig, ffolineb fyddai cau'r ysgol

- Rydych yn ymddangos i wneud pwyntiau negyddol mai adeiladau etc. sy'n bwysig, nid ansawdd yr addysg a lles ein plant

- O ble daw'r holl arian 'newydd' ar gyfer yr addysg 21 ganrif y soniwch amdano ?

- Fe wnaethom ni ddewis ysgol San Siôr gan ei bod yn ysgol fechan sydd â safonau addysgol ardderchog. Nid oes gen i eisiau i fy mhlant fynd i ysgol fwy a all fod â neuadd a'r athrawon ddim yn gwybod enwau'r plant.

- Nid oes gennym anhawster bod babanod ac iau San Siôr ar wahân, rydym yn un ysgol!

- Mae'r Awdurdod yn sôn am 21 ganrif, a yw hyn yn golygu addysg well neu ratach ?

- Ynghlwm â'r ysgol mae eglwys ardderchog sy'n rhoi cefnogaeth hynod ac yn gwerthfawrogi plant

- Ethos yr ysgol yn ardderchog. Ysgol fechan - dosbarthiadau bach - ein plant yn cael sylw ardderchog, mae'n rhoi gwir ymdeimlad o gymdeithas

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Yng nghalon y gymdeithas
- Cyswllt cynhenid â'r eglwys
- Codi arian gan gyfeillion San Siôr
- Yr ysgol yn defnyddio adnoddau'r pentref
- Teimlwn fod yr ysgol yn rhan bwysig o'r ardal ac mae ganddi gysylltiadau clos â'r eglwys sy'n hynod bwysig

Anghenion a lles plant

- Mae'r ysgol yn falch o fod yn darparu ar gyfer holl anghenion plant ac mae'n amgylchedd dysgu amrywiol.
- Mae disgyblion yn wybyddus wrth eu henwau gan bob athro o gymharu â bod yn 'rif'
- Oherwydd materion a amlygwyd, mae plant yn cael mwy o ymarfer corff y tu allan nag ysgolion eraill ble mae adnoddau'n 'fewnol'.
- Mae plant yn cerdded yn rheolaidd i gyngherddau ysgol / gwasanaethau yn yr eglwys
- Addysg o ansawdd / hynod
- Amgylchedd diogel
- Parch
- Disgyblaeth
- Anghenion dysgu ar gyfer unigolion
- Amgylchedd teuluol
- Dealltwriaeth athrawon o bob unigolyn
- Mae San Siôr wedi ennill gwobrwyon am fwyta'n iach
- Mae staff yn cadw golwg ar blant tra maent yn bwyta amser cinio. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta cinio iach ac yn canolbwyntio trwy'r dydd. Mewn ystafell ginio fawr, cedwir golwg dda ar y plant.

Adeiladau ac adnoddau

- Mae gan yr ysgol yr holl adnoddau a nodir yn yr adroddiad fel 'ar goll' ac mae'r holl rieni'n cydnabod bod rhai diffygion ond yn penderfynu anfon eu plant yma beth bynnag

- Parthed problemau traffig – mae gan yr ysgol system un ffordd ardderchog yn ei lle sy'n llawer mwy diogel na'r hyn welwyd mewn ysgolion eraill

- Nid Cyngor Conwy yw perchen yr adeiladau. Ar y cyfryw ni fyddai'n arbediad cost yn syth pe bai'r ysgol yn cau

- Gweler y dogfennau yn y cofnodion. Am swm bychan gall tŷ'r eglwys fod yn addas i'r pwrpas

- Mae neuadd yr eglwys yn iawn ar gyfer gwersi campfa / Add Gorff wythnosol

- Nid yw'r problemau a nodwyd mewn gwirionedd yn broblemau i'r ysgol – mae gan ein plant yr holl adnoddau sydd arnynt eu hangen mewn mannau eraill e.e. neuadd yr eglwys

- Mae gan bob plentyn wasgod 'gweledd' i'w gwisgo wrth gerdded i fyny'r allt. Prynwyd y rhain gan CRhA yr ysgol, ynghyd â meinciau newydd, matiau etc. ar gyfer Add Gorff

- Mae cegin yr ysgol yn darparu prydau ardderchog

- Adeiladwyd dau ddosbarth newydd pwrpasol saith mlynedd yn ôl gan gynnwys buarth mawr

- Codwyd dosbarth awyr agored ar gyfer y cyfnod sylfaen yn ddiweddar

- Datblygwyd gardd i gynnwys gerddi llysiau, perlysiau etc.

- Diogelwch a chamera cylch cyfyng wedi'i osod

- Adnoddau AG awyr agored ardderchog, llinellau, marciau etc

Dywedodd GT y byddai'n casglu'r holl wybodaeth a'r adborth gan y pennaeth. Gall syniadau a barn barhau i gael ei anfon ar ôl y cyfarfod trwy bost-e at TJB neu Wasanaethau Addysg a byddai'n cael ei ddarparu trwy'r pennaeth.

4. Sesiwn cwestiwn ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = Sylw)

S: Mae cost fesul disgybl yn San Siôr yn £623 is law'r cyfartaledd ar gyfer Conwy. Ystâd Cinmel yw perchen yr ysgol felly ni fyddai mantais ariannol i Gonwy ei gwerthu.

C: Trwy wneud y newidiadau hyn a moderneiddio, onid ydych yn mynd i gynyddu cost cludiant ysgol?

A: Byddai'n rhaid i unrhyw ddewis a gynigiwyd ar gyfer yr ardal gynnwys cost teithio a'r effaith fyddai'n ei gael.

S: Mae gennych eisiau edrych ar wella ysgolion uwchradd yn hytrach nag ysgolion cynradd yn unig.

C: Os bydd ysgol San Siôr yn goroesi moderneiddio, a fydd yn edrych yr un fath pan ddaw allan y pen arall ?

A: Byddai'n rhaid buddsoddi o fewn y strategaeth mewn ardal ble roedd newidiadau yn bendant yn mynd i ddigwydd. Felly byddai San Siôr yn dod yn is i lawr y rhestr flaenoriaeth buddsoddiad.
C: Ai ysgolion newydd sbon danlli fydd yn cael y buddsoddiad?
A: Na, mae sawl dewis gwahanol i'w ystyried – ysgolion ardal, ffederaleiddio a chlystyru.
C: Pam na fyddwch yn buddsoddi yn yr ysgol hon pan fo ganddi safonau addysgol mor uchel?
A: Mae arian cyfyng ar gael ar gyfer buddsoddi a golyga hyn na allwn fuddsoddi ymhob ysgol unigol – byddai hyn yn costio tua £60 miliwn ac ni fydd LICC yn ariannu hyn. Angen blaenoriaethu rhai ardaloedd yn hytrach nag eraill.
C: A ydych yn mynd i fod yn adolygu rheolaeth uwch yr Awdurdod ?
A: Ydym fel rhan o'r effeithlonrwydd parhaus sy'n rhaid ei wneud. Rydym hefyd yn edrych ar ysgolion uwchradd, addysg ôl 16, ysgolion arbennig a staff yr AALl. Rydym yn adolygu ar bob lefel ac mae hyn yn cynnwys cydweithio â siroedd eraill.
S: Gallai ysgolion mwy arwain at ostyngiad mewn safonau addysgol.
A: Mae'n rhaid i ni wneud arbedion o fewn y cyfyngiadau cyllidebol rydym yn cael ein hunain ac rydym yn ceisio gwneud newidiadau er mwyn cadw safonau uchel.
S: Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi cyflwyno adroddiad i chi heno sy'n manylu pwysigrwydd yr ysgol. Mae pobl yn teimlo'n gryf iawn am yr ysgol a'i lle yn y gymdeithas. Nid yw brics a morter yn gwneud ysgol a rhaid i chi ddeall dyfnder y teimladau sydd o'i amgylch. Diolch i bawb am eu presenoldeb.

Diolchodd DB i bawb am eu cyfraniad a phresenoldeb, cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal syniadau/pryder

- A fydd y cynllun datblygu lleol yn dylanwadu ar benderfyniadau e.e. adeiladu mwy o dai
- Onid yw 84% o bobl o du allan i'r ardal yn dewis yr ysgol yn ffaith gadarnhaol?
- Enw da iawn i'r ysgol – rhestr ddisgwyl, plant yn hapus
- Darperir addysg ardderchog
- Yr holl staff yn cyfrannu i ethos yr ysgol
- Yr ysgol yn defnyddio adnoddau lleol